

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

Mr C. B. Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Ffôn: (01443) 424081 C Hendy

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Iau, 7 Medi 2017 am 5.00pm.**

ER GWYBODAETH AC FEL RHEOL GYFFREDINOL, BYDD GOFYN I UNRHYW AELODAU O'R CYHOEDD SY'N DYMUNO SIARAD AR UNRHYW EITEM YN YR AGENDA YMA, Y MAE GYDA NHW FUDDIANT YNDDI, GYFLWYNO CAIS FFURFIOL I'R UWCHADRAN MATERION RHEOLI DATBLYGU, TŶ SARDIS, PONTYPRIDD O LEIAF DAU DDIWRNOD GWAITH CYN DYDDIAD Y CYFARFOD. DYLAU UNRHYW UN SY'N DYMUNO ANNERCH Y PWYLLGOR DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG GYSYLLTU Â'R GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL AR 01443 424102.

ER GWYBODAETH I'R RHEINY A FYDD YN Y CYFARFOD, MAE'N BOSIBL Y CAIFF MATERION EU TRAFOD MEWN TREFN WAHANOL I'R HYN SYDD WEDI'I NODI YN YR AGENDA ER MWYN GALLUOGI UNIGOLION SYDD AM GYFRANNU YN Y CYFARFOD I WNEUD HYNNY. CAIFF TREFN YR AGENDA EI HADDASU ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR ORAU.

AGENDA

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau o'r Pwyllgor yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e, a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, pan fyddan nhw'n trafod y materion rheoli datblygu ger eu bron, roi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu a, cyn belled â'u bod yn berthnasol, i geisiadau ac i ystyriaethau eraill. Pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu'n groes i'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Tudalennau

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 3 Awst 2017 yn rhai cywir.

5. CYFARFOD AR SAFLE

- (1) Cais Rhif 17/0299 - Newid defnydd o fod yn C3 (tŷ annedd) i fod yn C4 (tŷ amlfeddiannaeth) – **13 Windsor Road, Trefforest, Pontypridd, CF37 1BX**
- (2) Cais Rhif: 17/0405/10 – Newid defnydd yr eiddo o fod yn C3 (tŷ annedd) i fod yn C4 (tŷ amlfeddiannaeth) – **23 Egypt Street, Trefforest, Pontypridd, CF37 1BS.**
- (3) Cais Rhif: 17/0309/10 – Cais ôl-weithredol i addasu annedd (Dosbarth C3), i fod yn dŷ amlfeddiannaeth (Dosbarth C4) – **88 Broadway, Trefforest, Pontypridd CF37 1BD.**

6. ADRODDIADAU CYFARWYDDWR GWASANAETH, MATERION CYNLLUNIO

CEISIADAU SYDD WEDI'U HARGYMELL AR GYFER EU CYMERADWYO

1. Cais Rhif: 15/1390 - Codi wal derfyn â blociau a grisiau sy'n arwain i'r patio a'r ardd renciog (haenog) (derbyniwyd cynlluniau wedi'u newid 20/07/17), 38 Miskin Road, Trealaw, Tonypany.

- 2 Cais Rhif: 17/0454 - Addasiadau i'r rhandy cefn a gwaith adnewyddu cyffredinol i hwyluso newid mewn defnydd o fod yn Dŷ Tafarn ac iddo 13 o ystafelloedd gwesty (Dosbarth Defnydd A3 a C1) i fod at ddefnydd cymysg gan gynnwys caffi bistro, bwyty (Dosbarth Defnydd A3), cadw'r ystafelloedd gwesty, becws (A1) a microfragdy (B2), Gwesty'r Cardiff Arms, Bute Street, Treorci.
- 3 Cais Rhif: 17/0499 - Addasu/Newid defnydd i fod yn 2 annedd breswyl deras ac ynddyn nhw 3 ystafell wely. Hen Dafarn y Royal Oak, Llanwonno Road, Aberpennar.
- 4 Cais Rhif: 17/0585 - Gosod gorsaf teleathrebu a mast gan gynnwys 2 ddysgl 300mm ynghyd â chabinetau offer cysylltiedig a gwaith datblygu atodol arnyn nhw (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 2 Awst 2017), tir yn Nant Y Dwrgi, Llanharan.
- 5 Cais Rhif: 17/0706 - Addasiadau ar gyfer gosod ffenestr dull Ffrengig newydd i roi mynediad o'r bwyty i'r llawr pren newydd tu allan ar gyfer ciniawa tu allan, Tafarn Trebanog, Trebanog Road, Trebanog, Y Porth
- 6 Cais Rhif: 17/0733 - Newid defnydd o fod yn Ganolfan MOT a modurdy gwerthu i fod yn ganolfan MOT a llogi ceir, J W Cars, Caerdydd Road, Rhydfelen, Pontypridd.
- 7 Cais Rhif: 17/0745 - Gwaith arfaethedig i sefydlu gorsaf teleathrebu gyda mast monopol 17.5m sy'n cynnal 3 antena, 2 ddysgl 300mm ynghyd â chabinetau cysylltiedig a gwaith datblygu arnyn nhw, tir yn Ynyshir Road, Y Porth
- 8 Cais Rhif: 17/0772/ Y cynnig yw cael gwared â'r rhes bresennol o risiau a'r llwyfan sy'n arwain i'r ardd isaf, a gosod llwyfan bren (decking) newydd gyda grisiau newydd, 180 Tyntyla Rd, Llywnypia, Tonypany
- 9 Cais Rhif: 17/0784 - Gwaith arfaethedig i sefydlu gorsaf teleathrebu gyda monopol 22.5m sy'n cynnal 3 antena, 2 ddysgl 300mm ynghyd â chabinetau cysylltiedig ar y tir a gwaith datblygu arnyn nhw, tir yn Ystad Ddiwydiannol Abergorci, Treorci.
- 10 Cais Rhif: 17/0793 - Datblygiad newydd, defnydd cymysg sy'n rhoi lle ar gyfer defnydd B1 yn bennaf, ond gyda lle atodol ar gyfer defnydd A3, D1 a D2 trwy gyfrwng tri adeilad newydd uwchben islawr cyffredin sy'n darparu lleoedd parcio ac ardaloedd gwasanaethau, safle hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf (Taff Vale), Stryd y Taf, Pontypridd.

7. CEISIADAU SYDD WEDI'U HARGYMELL AR GYFER EU GWRTHOD

Cais Rhif: 17/0495 – Adnewyddu tŷ tafarn gan gynwys cadw to, a'i estyn, yr estyniad dau-lawr i'r cefn (ar gyfer estyn y tŷ tafarn ar y llawr gwaelod, cyfanswm o 3). Yn ogystal â chadw'r weithfa beirianyddol yn yr ardal amwynder i'r cefn (ar gyfer gardd, mynedfa, parcio) Tafarn y Royal Oak, Morgan Row, Cwm-bach, Aberdâr.

8. CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

- (1) Cais Rhif: 16/0660 – 33 o anheddau ynghyd â seilwaith priffyrdd a draenio cysylltiedig, tir y tu ôl i Delwen Terrace, Blaen-cwm.
- (2) Cais Rhif: 12/1282 – Datblygiad Preswyl Arfaethedig a gwaith cysylltiedig, Hen Ysbyty Treherbert, Treherbert.

9. ADRODDIADAU ER GWYBODAETH

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, am y cyfnod 07/08/2017 a 18/08/2017. Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodaeth Apeliadau a Dderbyniwyd.

Penderfyniadau Dirprwyedig, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda Rhesymau.

10. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cylchrediad:

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu:
(Y Cynghorwyr S. Rees a G. Caple)

Y Cynghorwyr J. Bonetto, A. Davies-Jones, D. Grehan, L. Hooper G. Hughes,
P. Jarman, D. Williams, J. Williams a C. Willis